**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

**National Assembly for Wales**
Assembly Commission

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Hydref 2019

Annwyl Nick

## Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Craffu ar Gyfrifon 2018-19

Yn dilyn ein hymddangosiad gerbron eich Pwyllgor ar 30 Medi, rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i chi a fydd yn ategu'r atebion a roddwyd gennym yn ystod y cyfarfod.

Gofynnwyd am y wybodaeth a ganlyn ac mae wedi'i nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm:

- y targedau ymestyn ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol;
- plastig untro ar yr ystâd;
- agweddau amgylcheddol asesiadau contract; a
- chymharu absenoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a llesiant ac achosion eraill o salwch ar gyfer eleni a'r llynedd.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am eich gwaith craffu. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlir. Felly, os oes unrhyw beth arall y gallwn ei roi ichi i gynorthwyo trafodaethau'r Pwyllgor, mae croeso ichi roi gwybod imi.

Yn gywir



Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

# Comisiwn y Cynulliad: Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn ymddangosiad 30 Medi 2019 yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Y targedau ymestyn ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol.**

Bu'r Comisiwn yn ystyried ac yn cytuno ar set newydd o ddangosyddion perfformiad corfforaethol a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019. Adroddir ar y dangosyddion newydd hyn yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20 a gyhoeddir yn haf 2020.

Mae'r dangosyddion perfformiad newydd yn parhau i alinio â nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, ond yn defnyddio dull diwygiedig gan ganolbwyntio mwy ar y canlynol:

a. Set o fesurau strategol o berfformiad corfforaethol cyffredinol; a
b. Set o fesurau sy'n darparu'r 'ymestyniad' i ddatblygu perfformiad lle mae angen gwella neu risg o sefyll yn ein hunfan.

Mae'r dangosyddion ymestyn yn mynd i'r afael â chaffael gyda chyflenwyr Cymru, absenoldeb salwch, ymgysylltiad, cynrychiolaeth BAME yng ngweithlu'r Comisiwn, cefnogi'r Aelodau i weithio yn yr iaith o'u dewis a lleihau teithiau mewn car sy'n gysylltiedig â busnes.

**Set o fesurau strategol o berfformiad corfforaethol cyffredinol**

| Nod corfforaethol | Dangosydd | Mesur(au) | Targed |
|---|---|---|---|
| **Cymorth seneddol o'r radd flaenaf** | Mae'r holl fusnes seneddol wedi digwydd fel y cynlluniwyd | Mae'r Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd y pwyllgorau wedi'u cynnal o fewn gofynion statudol | 95 y cant |
| | Cyhoeddi Cofnod y Trafodion yn unol â'r amserlen | Cofnod y Trafodion ar gyfer y Cyfarfod Llawn wedi'i gyhoeddi o fewn y terfyn amser | Cyhoeddir Cofnod y Trafodion ar-lein (gyda chyfraniadau Cymraeg wedi'u cyfieithu i'r Saesneg) o fewn 24 awr<br><br>Cyhoeddir Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog ar-lein o fewn 3 diwrnod gwaith neu lai |

| Nod corfforaethol | Dangosydd | Mesur(au) | Targed |
| --- | --- | --- | --- |
| | Arolwg boddhad blynyddol Aelodau Cynulliad/Staff Cymorth | Sgôr boddhad cyffredinol yr arolwg | Nid yw'r sgôr yn is nag 8.0 |
| **Defnyddio adnoddau'n ddoeth** | Cyfrifon blynyddol | Cyfrifon diamod, wedi'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, ynghyd ag adroddiad ISA260 yn codi dim materion arwyddocaol | Mae'r cyfrifon yn ddiamod |
| | Cyllideb weithredol y Comisiwn | Canran yr alldro yn erbyn cyllideb weithredol y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol | Mae canlyniad gweithredol diwedd blwyddyn o fewn yr ystod 0 y cant i 1.5 y cant o'r gyllideb weithredol gymeradwy |
| | Arolwg Staff Blynyddol | Sgôr cyffredinol y mynegai ymgysylltu | Mae'n gyfwerth â sgôr cyfartalog y Gwasanaeth Sifil, neu'n uwch na'r sgôr hwnnw |
| | Manteisio ar ddysgu Cymraeg | Nifer staff y Comisiwn, Aelodau Cynulliad a Staff Cymorth sydd wedi cofrestru i ddysgu Cymraeg:<br><br>* Lefelau dysgwr 1, 2 a 3<br>* Lefelau uwch, 4 ac uwch | Mae cyfanswm y nifer sydd wedi cofrestru ar draws pob lefel yn cael ei gynnal neu ei gynyddu NEU:<br>Mae cyfanswm y nifer sy'n ymgymryd â dysgu ar bob lefel yn cynyddu |
| **Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad** | Ymgysylltu â dinasyddion:<br><br>Byddwn yn cynnal arolwg cyn gweithgaredd ymgysylltu wyneb yn wyneb ac eto ar ddiwedd y | Y cynnydd yn hyder cyfranogwyr i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.<br><br>Y cynnydd yn niddordeb cyfranogwyr yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol.<br><br>Y cynnydd yn nealltwriaeth | Mae cynnydd yn asesiad y cyfranogwr. |

| Nod corfforaethol | Dangosydd | Mesur(au) | Targed |
|---|---|---|---|
| | gweithgaredd.<br>Bydd yr arolygon yn cael eu cynnal gan y timau a ganlyn:<br>- Allgymorth<br>- Digwyddiadau<br>- Addysg<br>- Timau Ymgysylltu yr Ystâd, gan gynnwys arddangosfeydd a theithiau. | cyfranogwyr o waith y Cynulliad Cenedlaethol. | |
| | Dilynwyr sianeli cyfryngau corfforaethol y Cynulliad | Monitro a gwerthuso nifer y dilynwyr ar ein prif sianeli cyfryngau corfforaethol. | Mae cynnydd yn nifer y dilynwyr. |
| | Y newyddion a'r cyfryngau | Monitro a gwerthuso cyrhaeddiad a'r math o lwyfannau dosbarthu cyfryngau yr ymgysylltwyd â hwy yn llwyddiannus o ganlyniad i hyrwyddo ymchwiliadau pwyllgor a lansiadau adroddiadau. | Mae cynnydd mewn ymgysylltiad. |
| | Ymgysylltiad rhyngwladol | Cynnydd tuag at ddarparu Fframwaith y Cynulliad ar gyfer Ymgysylltiad Rhyngwladol yn ystod y Pumed Cynulliad. | Tystiolaeth o gyfranogiad mewn rhwydweithiau seneddol rhyngwladol perthnasol.<br><br>Mae ymgysylltiad ystyrlon i mewn ac allan i wella proffil y Cynulliad ac arddangos ein gwaith i gynulleidfaoedd rhyngwladol. |

## Dangosyddion Ymestyn

| Dangosyddion Ymestyn | Mesur(au) | Targed |
|---|---|---|
| Caffael y Comisiwn | Canran gwariant y Comisiwn gyda chyflenwyr o Gymru | Cynnydd o 39 y cant i 43 y cant erbyn diwedd y Pumed Cynulliad |
| Absenoldeb oherwydd salwch | Cyfradd absenoldebau oherwydd salwch | Mae'r mesur ar yr un lefel neu'n is na chyfartaledd y sector cyhoeddus fel yr adroddwyd gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu. |
| Cyrhaeddiad ymgyrch | Gwerthuso cyrhaeddiad cyffredinol yr ymgyrchoedd a ganlyn:<br>– Sesiynau preswyl y Senedd Ieuenctid<br>– Diwygio'r Cynulliad<br>– Dathliadau ugain mlynedd<br>Wedi'i fesur drwy werthuso ar ôl yr ymgyrch | Cynnydd mewn cyrhaeddiad. |
| Cynrychiolaeth BAME | - Nifer y ceisiadau am swyddi a hysbysebir yn allanol<br>- Nifer y llwyddiannau wrth sifftio<br>- Nifer y cynigion cyflogaeth a dderbynnir<br><br>yn ymwneud ag unigolion sy'n nodi eu bod yn BAME | Y sgorau mesur unigol i gynyddu o un flwyddyn i'r llall am y tair blynedd nesaf |
| Gallu'r Aelodau i weithio yn eu dewis iaith | Effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i hwyluso gallu'r Aelodau i weithio yn eu dewis iaith yn y Cyfarfod Llawn ac mewn cyfarfodydd Pwyllgor | Papurau'r Cyfarfod Llawn ar gael yn ddwyieithog yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt – 100 y cant<br><br>Papurau Pwyllgor a baratowyd yn fewnol wedi'u dosbarthu yn Gymraeg (yn unol â therfynau amser y cytunwyd arnynt gan bwyllgorau) – 100 y cant<br><br>Sgorau boddhad yr Aelodau ar y gallu i weithio yn eu dewis iaith yn 85 y cant neu'n uwch |
| Taith mewn car sy'n gysylltiedig â busnes | Cyfanswm lefel yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thaith mewn car preifat, car at ddefnydd pawb neu gar wedi'i logi | Yn is na'r 67 y cant o gyfanswm yr allyriadau teithio ar gyfer 2017/18 |

**Plastig untro ar yr ystâd.**

Mae lleihau plastigau untro wedi bod yn ffocws penodol yn ystod 2018-19. Adlewyrchwyd hyn yn nifer y 'galwadau i weithredu' a gafwyd yn uniongyrchol gan y Comisiwn a chan yr Aelodau mewn dadleuon yn y Cyfarfod Llawn. Roedd hefyd yn ganolbwynt pwysig ar gyfer trafodaethau ymhlith aelodau ein Senedd Ieuenctid newydd.

Mewn ymateb, gwnaethom ymuno â'r fenter Gorffennaf Heb Blastig yn 2018 ac rydym wedi tynnu plastigau untro (cynwysyddion bwyd tecawê, cwpanau dŵr, cyllyll a ffyrc a photiau salad, iogwrt a ffrwythau a wneir yn fewnol) o'n gwasanaeth arlwyo, yn ffreutur y staff a chaffi’r Senedd. Sawl blwyddyn yn ôl gwnaethom ddileu'r defnydd o gwpanau coffi tafladwy ar yr ystâd. Drwy'r gwasanaeth arlwyo rydym yn cefnogi nifer o gynhyrchwyr bwyd o Gymru, gan gynnwys Rachel's Dairy a Llaeth y Llan sy'n cyflenwi iogyrtiau a Princes Gate sy'n cyflenwi dŵr potel. Nid oes gan y cyflenwyr hyn unrhyw ddewis arall yn lle cynwysyddion plastig ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cyflenwyr o Gymru i ddeall a ydynt yn bwriadu newid eu deunydd pacio a phryd y byddant yn gwneud hynny.

Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn gyda'n cadwyn gyflenwi i wella'r ddarpariaeth o opsiynau mwy cadarn yn ecolegol lle mae'n bosibl gwneud hynny. Byddwn hefyd yn cynnal archwiliad o'r plastig untro sy'n weddill yn y gwasanaeth arlwyo erbyn diwedd y flwyddyn i weld beth arall y gellir ei ddileu'n raddol, gyda chyfraniad Charlton House (ein darparwr arlwyo).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein **Hadroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd ar gyfer 2018-19**

**Agweddau amgylcheddol asesiadau contract.**

Rydym yn profi cymwysterau amgylcheddol cyflenwyr ar gam yr holiadur cyn-gymhwyso (PQQ) mewn unrhyw broses dendro. Yn ystod y cam PQQ gofynnwn i gyflenwyr am eu cymwysterau amgylcheddol megis torri deddfwriaeth amgylcheddol, systemau rheoli amgylcheddol, polisïau amgylcheddol ac adolygu effeithiau amgylcheddol. Caiff y cwestiynau hyn eu sgorio ac maent yn dylanwadu ar y dewis terfynol o gyflenwyr.

Ar gyfer pob contract newydd, rydym yn cynnal Asesiadau Risg Cynaliadwyedd. Er enghraifft, rydym wrthi’n cynnal ymarfer tendro ar gyfer ein contract glanhau. Rydym wedi cynnal asesiad risg cynaliadwyedd ar gyfer y contract hwn sy'n ystyried yr effeithiau allweddol yn ystod oes y gwasanaeth, gan gynnwys:

- sut y mae'r cyflenwr yn recriwtio, yn cadw, yn cefnogi ac yn gwobrwyo ei bobl
- yr adnoddau a'r deunyddiau y mae'n eu defnyddio i gyflawni'r contract, beth ydynt, sut y cânt eu cyrchu a'u rheoli

- y risgiau cynaliadwyedd - gwastraff, unrhyw faterion o ran amrywiaeth, is-gontractwyr, cydraddoldeb.

Mae Asesiadau Risg Cynaliadwyedd yn edrych ar ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y gwasanaeth neu'r cyflenwad. Mae allbwn yr asesiad yn ein helpu i lywio'r fanyleb, dewis cyflenwyr, gwerthuso neu reoli contractau.

**Cymharu absenoldebau sy’n gysylltiedig ag iechyd meddwl a llesiant ar gyfer eleni a'r llynedd.**

Yn 2018-19 roedd cyfanswm yr absenoldebau treigl am resymau salwch meddwl yn 33 y cant a chynyddodd ychydig yn 2019-20 i 36.8 y cant. Mae ein hystadegau yn unol ag absenoldebau cynyddol sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ar draws y sector cyhoeddus. Gwyddom o'r dadansoddiad, a'n rhwydwaith gweithredol cydraddoldeb yn y gweithle o ran iechyd meddwl, fod ein cyfraddau wedi cynyddu, yn rhannol, o ganlyniad i'n hymgyrch weithredol i dorri'r stigma o amgylch iechyd meddwl ac i annog gweithwyr i ddod ymlaen. Rydym wedi nodi perthynas uniongyrchol rhwng y cynnydd hwn a gostyngiad cyfatebol mewn achosion o annwyd a phroblemau cyhyrysgerbydol. Mae'r ystadegau'n dal nifer o afiechydon, gan gynnwys pryder, iselder ysbryd, a salwch meddwl sy'n gysylltiedig â phrofedigaeth.

Mae iechyd meddwl a lles staff yn parhau i fod yn bwysig i'r Comisiwn.  Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19 y Comisiwn**.